# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-02- 06(p.3)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 25 Ionawr 2006 |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio - Masnachu mewn Pobl**

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn hysbysu'r Pwyllgor am ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar Fasnachu mewn Pobl.

**Cefndir**

2. Mae copi o'r papur ymgynghori yn Atodiad 1. Ystyrir masnachu mewn pobl fel math o gaethwasiaeth yr oes fodern sy'n peri niwed mawr i'r unigolion dan sylw ac i'n cymdeithas a'r economi'n gyffredinol. Mynd i'r afael â masnachu mewn pobl yw un o brif flaenoriaethau strategaeth troseddu cyfundrefnol Llywodraeth y DU. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i lunio cynllun gweithredu cenedlaethol sy'n anelu at fynd i'r afael â'r broblem o fasnachu mewn pobl a'i atal, yn unol ag argymhelliad sefydliadau rhyngwladol fel y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE).

3. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar yr ardaloedd gweithredu arfaethedig a'r mentrau penodol a gynigir yn ogystal â'n chwilio am gyfle i awgrymu ardaloedd eraill y dylai strategaeth y DU ganolbwyntio arnynt. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 5 Ebrill.

**Argymhelliad**

3. Bod y Pwyllgor yn ystyried ymateb i'w anfon i'r Swyddfa Gartref ac yn cytuno arno.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Ionawr 2006**